# POBL A CHYMUNEDAU YN SIR BENFRO

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn dod i wybod am linell Landsker, yn ystyried ceiswyr lloches a rhagfarnau posiblgan rai pobl. Maent yn archwilio pentref Angl a'i hanes, gan ymweld ag Angl a gwneud ymchwil arno. Mae dysgwyr yn cynhyrchu llyfr lloffion digidol i arddangos hanes un o'r adeiladau yn Angl. Yna, maent yn dysgu am fôr-ladron enwog Sir Benfro cyn ystyried Brwydr Abergwaun a rôl chwedlonol Jemima Nicholas. Maen nhw'n ystyried cerdd ddoniol am Jemima Nicholas cyn archwilio ynghylch merched enwog Cymru, er mwyn iddyn nhw allu ysgrifennu cerdd ddoniol eu hunain.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o gymryd ffotograffau (e.e. ffôn clyfar, tabled, camera).
Mynediad at apiau llyfr lloffion digidol, e.g. Canva, Paper by WeTransfer, SCRL: Photo Collage Maker.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# CÂR DY GYMYDOG

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall mwy am geiswyr lloches a thueddiadau posibl. Byddai'n ddoeth peidio â sôn am linell Landsker a gwahaniaethau iaith mewn ardaloedd o Sir Benfro, tan ar ôl sgrîn 3.

## Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y ddelwedd yn ofalus, gan ddefnyddio'r cwestiynau sydd ar y sgrîn.

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y llinell goch sydd ar y map ar y sgrîn flaenorol yn dangos ffin ieithyddol, gan fod y Gymraeg yn cael ei siarad yn fwy cyffredin i'r gogledd. Gelwir y ffin hon yn Linell Landsker. Weithiau gelwir yr ardal i'r de o Linell Landsker yn 'Little England beyond Wales', gan mai Saesneg yw'r brif iaith yno. Ar y sgrîn, gwelir brasamcan cynnar o hyn yn yr 16eg Ganrif.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y map sy'n dangos canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg ac yna i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ardaloedd o Gymru sydd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg?
- Pa ardaloedd o Gymru sydd â'r nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg?
- Ble mae Llinell Landsker? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam ydych chi'n meddwl bod gwahaniaeth rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg uwchben ac o dan Llinell Landsker?

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am linell Landsker a'i tharddiad.

## Sgrîn 7

Rhoddir gwybodaeth manylach ar y sgrîn hon am darddiad llinell Landsker yng nghyd-destun ceiswyr lloches.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod trefn Geltaidd hynafol o'r enw cantrefi wedi bodoli yng Nghymru ers canrifoedd. Roedd y cantrefi yn aml yn nodi'r ffin rhwng tafodieithoedd. 'Rhoddwyd' Rhos i'r Ffleminiaid.

Mae'r map a ddangosir yn rhoi brasamcan o ffiniau cantrefi mwyaf Cymru.

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, darperir map o'r cantrefi drachefn. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae Rhos ar y map?
- Pa mor bell yw Rhos o'ch hysgol chi? Sut wnaethoch chi gyfrifo'r pellter?
- Beth oedd arwynebedd Rhos? Sut wnaethoch chi amcangyfrif yr arwynebedd?
- Dychmygwch eich bod yn byw ar fferm yn Rhos pan symudodd y bobl o Fflandrys i'r cantref.
    - Beth allai fod wedi digwydd? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
    - Beth fyddech chi wedi'i wneud? Pam?
    - Sut byddech chi wedi teimlo? Pam?
- Dychmygwch eich bod yn fewnfudwr Ffleminaidd yn symud i Rhos.
    - Sut byddech chi wedi teimlo? Pam?

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr fod ceisio lloches mewn gwlad arall yn digwydd pan fydd pobl yn gadael eu gwlad, yn aml yn sydyn, oherwydd eu bod yn wynebu erledigaeth, rhyfel neu drais ac ni allant gael eu diogelu yno.

Gwahoddwch nhw i wylio'r fideo BBC News - How Ukrainian refugees fleeing Russia's war are settling in Wales (tua dwy funud a hanner o hyd). Yna, gall y dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam mae pobl Wcráin yn ceisio lloches mewn gwlad arall?
- Sut ydych chi'n meddwl y mae ceiswyr lloches o Wcráin yn teimlo pan fydd yn rhaid iddynt adael eu gwlad?
- Sut ydych chi'n meddwl y mae ceiswyr lloches o Wcráin yn teimlo pan fyddant yn dod i Gymru? Pam?

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu fod yn rhaid iddyn nhw adael cartref yn gyflym iawn oherwydd bod rhyfel yn torri allan yn lleol, a dim ond un bag sydd ganddyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa bum peth fyddech chi'n eu cymryd gyda chi?
- Pam fyddech chi'n cymryd pob un o'r pethau hyn?
- Pa dri pheth arall yr hoffech eu cymryd hefyd, pe byddai gennych le yn eich bag? Pam hoffech chi gymryd pob un o'r pethau hyn hefyd?

## Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr fod mewnfudwyr i Gymru a'r DU yn dod â diwylliannau, sgiliau a phrofiadau defnyddiol gwahanol i'w canlyn. Fodd bynnag, mae gan rai pobl syniadau rhagfarnllyd sy'n gwneud iddynt ganolbwyntio mwy ar feddyliau negyddol yn hytrach na'r rhai cadarnhaol.

Dangoswch y fideo a gofynnwch iddyn nhw feddwl am ymateb y teulu - The Catherine Tate Show - Posh family reacts to northern nanny (ychydig dros ddau funud o hyd). Yna, dylai'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ragfarnau sydd gan y 'teulu crand'?
- Pam ydych chi'n meddwl bod gan y teulu crand y rhagfarnau hyn?

## Sgrîn 13

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gan bob un ohonom ragfarnau anymwybodol sydd wedi'u gwreiddio yn ein teimladau, ein hagweddau a'n credoau yn aml. Rydym yn cael y rhagfarnau hyn, er enghraifft, gan ein teulu, ein cylchoedd cymdeithasol, addysg, teledu a ffilm, papurau newydd, cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion, grwpiau cyfeillgarwch, ac ati. Efallai y byddwn yn trin pobl yn wahanol oherwydd eu bod yn dod o hil, diwylliant, crefydd a/neu ddosbarth arall, am fod Saesneg neu Gymraeg yn ail iaith iddynt, am eu bod yn ddieiriau, am fod ganddynt anghenion emosiynol a chymdeithasol ychwanegol, am fod ganddynt anabledd neu am nad ydynt yn cydymffurfio â'r hyn a ystyrir yn arferol ar gyfer eu rhyw.

## Sgrîn 14

Eglurwch wrth y dysgwyr fod tri prif fath o ragfarn anymwybodol.

- Rhagfarn affinedd – pan y byddwn yn dangos ffafriaeth tuag at eraill sy'n rhannu rhai rhinweddau neu nodweddion gyda ni, neu bobl rydym yn eu hoffi.
- Rhagfarn cadarnhau – pan y byddwn yn chwilio am wybodaeth neu'n dehongli'r hyn a welwn mewn ffyrdd sy'n cadarnhau ein credoau sy'n bodoli eisoes.
- Rhagfarn priodoli – pan y byddwn yn priodoli achos ymddygiad person i'w gymeriad ac nid i'r sefyllfa.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

Pe byddi teulu o geiswyr lloches yn symud i fyw yn lleol...

- Pa fathau o ragfarnau anymwybodol allai fod gennych chi? Pam?
- Sut allech chi oresgyn eich rhagfarnau anymwybodol? Pam y gallai'r syniadau hyn weithio?

## Sgrîn 15

Dangoswch y fideo am fwlio ar-lein - Schoolgirl Gets Bullied by Her Friends on Snapchat (ychydig dros dri munud o hyd). Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fathau o ragfarn anymwybodol a ddangoswyd gan y bwlis?
- Sut allech chi annog y bwlis i ddod i adnabod eu rhagfarnau? Pam fyddai hyn yn gweithio?

## Sgrîn 16

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i wneud poster er mwyn annog pobl i fod yn fwy caredig ag eraill yn yr ysgol.

Er mwyn helpu'r dysgwyr i wneud poster da, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n gwneud poster da? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa eiriau sy'n bwysig i'w cynnwys? Pam?
- Pa ddelweddau sy'n bwysig i'w cynnwys? Pam?
- Beth yw'r negeseuon allweddol yr hoffech i'r poster eu cyfleu? Pam?
- Sut byddwch chi'n defnyddio lliw yn eich poster? Pam?

Yna, gallant greu eu poster.

TASG 2

# SUT Y FFURFIWYD CYMUNED ANGL?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i archwilio pentref Angl a'i hanes. Byddant yn ymweld ag Angl ac yn gwneud rhywfaint o ymchwil ar-lein i ddarganfod mwy am rai o'i adeiladau hanesyddol a chynhyrchu llyfr lloffion digidol i arddangos un o'r adeiladau.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr mai pentref ar ochr ddeheuol y fynedfa i Ddyfrffordd Aberdaugleddau yn Sir Benfro yw Angl. Gofynnwch iddyn nhw ddod o hyd i Angl ar y map OS. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor bell yw Angl o'n hysgol ni? Sut wnaethon ni gyfrifo'r pellter?
- Sut gallen ni deithio i Angl? Pa un yw'r ffordd orau? Pam?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod yna lwybr bws i Angl o Benfro. Gofynnwch iddyn nhw gyrchu [Llwybrau Bysiau ac Amserlenni] a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r amser gorau i adael Penfro, er mwyn cyrraedd Angl erbyn 2 o'r gloch ar brynhawn Sadwrn? Faint o amser mae'r daith yn ei chymryd?
- Pe byddem yn gadael Angl ar y bws am 16:31 ar brynhawn Sadwrn, faint o'r gloch fydden ni'n cyrraedd Penfro? Faint o amser mae'r daith yn ei chymryd?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod hanes hir i Angl a bod manylion yr hanes hwn i'w cael ar y sgrîn.

## Sgrîn 6

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am fynd am dro o amgylch Angl i geisio gweld rhai adeiladau hanesyddol a chymryd ffotograffau ohonynt. Hefyd, eglurwch eu bod yn gallu cymryd ffotograffau o unrhyw adeiladau diddorol eraill yr hoffent ddysgu amdanyn nhw. Pan yn ôl yn yr ysgol, byddan nhw'n darganfod mwy am un o'r adeiladau ac yn gwneud llyfr lloffion digidol o'u canfyddiadau.

## Sgrîn 7

Ar y sgrîn hon, rhoddir manylion am adeiladau penodol yn Angl er mwyn i ddysgwyr geisio dod o hyd i:

- Eglwys y Santes Fair.
- Capel y Pysgotwyr.
- Tower House (Tŷ Tŵr).
- Colomendy.
- Siop y pentref (bellach ar gau).
- Globe House.
- Thorne Island, sy'n cynnwys caer magnelau arfordirol.
- Melin wynt a newidwyd yn safle gwn peiriant.
- Caer Chapel Bay.

## Sgrîn 8

Ewch â'r dysgwyr i Angl (byddai mynd ar y bws yn ddelfrydol) fel y gallant ddod o hyd i'r adeiladau a chymryd ffotograffau.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i chwilio ar y rhyngrwyd er mwyn darganfod mwy am un o'r adeiladau a welwyd yn Angl, a'r bobl oedd yn arfer ei ddefnyddio.

Atgoffwch y dysgwyr bod angen iddynt ystyried y canlynol wrth chwilio ar y rhyngrwyd:

*Cyn ymchwilio...*

- Sut byddwch chi'n cynnal yr ymchwil hwn? Pam?
- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o safleoedd fydd orau i edrych arnynt, pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data...*

- Sut ydych chi'n gwybod bod y wybodaeth/data yn ddibynadwy? Sut allech chi ganfod hynny?
- A allai'r wybodaeth/data fod yn unochrog neu ragfarnllyd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 10

Darperir grid CwAMFf ar y sgrîn hon, i'w ddefnyddio gan ddysgwyr i gynllunio a chynnal eu chwiliad.

## Sgrîn 11

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i adrodd eu canfyddiadau mewn llyfr lloffion digidol. Gofynnwch iddynt edrych ar y wybodaeth y maent wedi'i chasglu o'r chwiliad ar y rhyngrwyd. Yna, dylai dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r darnau allweddol o wybodaeth? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth allech chi ei adael allan? Pam?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno'r wybodaeth hon? Pam?

Gwahoddwch nhw i greu eu llyfr lloffion digidol ac yna'i rannu gyda'r dosbarth.

Efallai yr hoffech chi ddefnyddio un o'r apiau rhad ac am ddim hyn ar gyfer creu'r llyfr lloffion:

Canva (Saesneg yn unig)

Paper by WeTransfer (Saesneg yn unig)

SCRL: Photo Collage Maker (Saesneg yn unig).

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd y gwnaethon nhw weithio wrth ddatblygu eu llyfr lloffion digidol: yn unigol, mewn grwpiau, ar-lein, gwaith pâr. Yna, gwahoddwch nhw i ystyried pa strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt o'r restr ganlynol: darllen, ymchwilio, tynnu llun, myfyrio, dosbarthu, trafod, gwneud prototeipiau, defnyddio modelau, defnyddio enghreifftiau, gwneud rhestrau. Gallant hefyd awgrymu strategaethau eraill a ddefnyddiwyd. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa strategaethau a weithiodd orau. Bydd y wybodaeth olaf hon yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.

TASG 3

# MÔR-LADRON SIR BENFRO A'R GORESGYNIAD

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dysgu am rai môr-ladron o Sir Benfro ac yn archwilio rhai o ferched enwog Cymru.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth mae'r geiriau 'môr-ladron' yn ei olygu i chi?
- Ym mhle ydych chi wedi clywed y gair 'môr-ladron' o'r blaen? Ym mha gyd-destun y cafodd ei ddefnyddio?

Yna, dylai'r dysgwyr gwblhau'r frawddeg i ddangos eu dealltwriaeth.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth mae'r gair 'smyglwyr' yn ei olygu i chi?
- Ym mhle ydych chi wedi clywed y gair 'smyglwyr' o'r blaen? Ym mha gyd-destun y cafodd ei ddefnyddio?
- Pryd wnaethoch chi 'smyglo' rhywbeth heibio i rywun ddiwethaf? Pam wnaethoch chi hynny?

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am George Clerk, môr-leidr enwog o Sir Benfro ar ddiwedd y 1500au, a'i gysylltiad ag Angl.

## Sgriniau 6-7

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ystyried y ddelwedd (plac i Barti Ddu) yn ofalus gan ddefnyddio'r geiriau ar gychwyn eu cwestiynau. Unwaith y byddant wedi creu eu cwestiynau, gofynnwch iddynt eu rhannu gyda phâr arall o ddysgwyr, gan drafod atebion posibl i'r cwestiynau.

## Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, cyflwynir Barti Ddu – Bartholomew Roberts (1682-1722). Barti Ddu oedd y môr-leidr mwyaf 'llwyddiannus' yn Oes Aur y Môr-ladron o ran nifer y llongau a gipiwyd ganddo.

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Barti Ddu hefyd yn enwog am greu ei gôd môr-leidr ei hun. Rhoddir fersiwn o'i reolau drwy glicio ar y botwm 'Gweld y rheolau'. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y rheolau ac yna i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw eich barn am y rheolau hyn?
- Pa reolau sy'n eich synnu? Pam?
- Pa reolau ydych chi'n cytuno â nhw? Pam?
- Pa reolau ydych chi'n anghytuno â nhw? Pam?

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Barti Ddu wedi datblygu fersiwn cynnar o faner y môr-ladron, sef y Penglog ac Esgyrn. Rhoddir delweddau o ddau o'r rhain ar y sgrîn. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol wrth edrych ar bob un o'r ddwy ddelwedd.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth mae'r faner yn ei bortreadu, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 11

Gwahoddwch y dysgwyr i ddychmygu eu bod yn berchennog llong ac eisiau dylunio eu baner eu hunain. Gallai eu llong fod yn cludo cargo, teithwyr, staff neu offer meddygol, offer chwaraeon neu unrhyw nwyddau eraill. Gofynnwch iddyn nhw ddylunio baner ar gyfer eu llong er mwyn dangos i eraill beth mae'n ei gario. Er mwyn annog y dysgwyr i feddwl, gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa symbolau allwch chi eu defnyddio i ddangos i eraill beth mae'n ei gario?
- Pam y byddai'r symbolau hyn yn ddefnyddiol?
- Pa liwiau fyddwch chi'n eu defnyddio ar gyfer eich baner? Pam?
- Beth fydd siâp eich baner? Pam?

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr, mewn grwpiau bach, rannu eu baner er mwyn gwirio bod eraill yn meddwl bod eu baner yn ddigon clir. Gofynnwch i'r grŵp roi adborth ar:

- Pa mor glir mae eich baner yn dangos yr hyn mae'r llong yn ei gario.
- Unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i'r faner a pham y byddai'r rhain yn welliannau.

## Sgrîn 13

Ar y sgrîn hon, cyflwynir Brwydr Abergwaun fel yr ymosodiad olaf ar dir mawr Prydain – ym 1797. Glaniodd mwy na 1,400 o filwyr Ffrainc yn Llanwnda ger Abergwaun.

## Sgrîn 14

Dyma wybodaeth am y chwedl sy'n son am Jemima Nicholas (Mam), y dywedir ei bod wedi helpu'n fawr i wthio ymosodiad gan oresgynwyr yn ei ôl.

## Sgrîn 15

Dangoswch yr hen fideo o gerdd gan ddigrifwr enwog o Gymru – Ryan Davies: Napoleon vs Mam (bron i 2 funud o hyd). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy oedd Napoleon? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth ydych chi'n feddwl yw ystyr 'Welsh mam'? Pam?
- Sut mae'r gerdd yn canmol Jemima Nicholas?
- Beth sy'n gwneud y gerdd yn ddoniol? Rhestrwch rai syniadau.

## Sgrîn 16

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ysgrifennu cerdd ddoniol eu hunain am Gymraes enwog. Bydd angen iddyn nhw benderfynu pwy y sonir amdani yn eu cerdd. Gofynnwch iddyn nhw ymchwilio ar y rhyngrwyd er mwyn creu rhestr o bosibiliadau, gan ddechrau gyda'r gwefannau hyn:

Cadw - Menywod yn hanes Cymru

Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru - 100 o Fenywod Cymreig

## Sgrîn 17

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Am bwy y byddwn ni'n ysgrifennu ein cerdd? Pam?
- Sut gallwn ni sicrhau bod ein cerdd yn canmol beth bynnag mae'r fenyw wedi'i wneud?
- Sut gallwn ni wneud ein cerdd yn ddoniol?
- Oes angen i'n cerdd odli? Os oes, sut ydym ni'n mynd i wneud hynny?

Yna, gallant ddrafftio'u cerdd a'i rhannu gyda'r dosbarth.